

Pwrpas yr Ysgrythur

“Y mae pob Ysgrythur wedi ei hysbrydoli gan Dduw ac yn fuddiol i hyfforddi, a cheryddu, a chywirow, a disgyblu mewn cyfiawnder.” (adn. 16)

Beth am ddarllen 2 Timotheus 3:10–17 ac yna myfyrio

Mae i'r Beibl nifer o fwriadau ac nid y lleiaf ohonynt yw bod yn gyfarwyddiadur i'r saint. Mae'n cynnwys nifer o wirioneddau inni fyfyrion arnynt, ond mae'n amhosibl inni fedi y bendithion cyflawn os nad yw'r Beibl yn cael ei ddarllen er mwyn dysgu sut mae cymhwyso ei egwyddorion i'n bywyd bob dydd ac i'n perthynas â'n gilydd.

Yn y testun o'n blaen heddiw, nid gwybod yr Ysgrythur yw'r pwyslais ond byw yr Ysgrythur. Mae'r Ysgrythur yn ddefnyddiol i ddysgu am ddaearyddiaeth Israel a'r cenedloedd o amgylch, yn ddefnyddiol i wybod am arferion y Dwyrain Canol. Efallai! Ond nid dyna'r hyn oedd ym meddwl yr apostol. Mae'r Ysgrythur wedi ei bwriadu i'n llunio, ein hyfforddi, i gerdded mewn cyfiawnder, ac i gymhwyso Gair Duw i bob sefyllfa yn ein bywyd. Os nad ydym yn defnyddio Gair Duw i'r pwrpas hwnnw, yna yr ydym yn ei gamddefnyddio.

A wyt yn gwybod beth i'w wneud os oes gan rywun rywbeth yn dy erbyn? Cei hyd i'r wybodaeth yn Mathew 18. Wyt ti'n gwybod beth yw'r egwyddorion sydd yn cynorthwyo i gynnal priodas? Cei hyd iddynt yn Effesiaid 5. Os wyt ti'n ystyried ysgariad, yna cei hyd i eiriau Iesu ar y mater ym Mathew 5. Wyt ti'n gwybod sut i ddisgyblu dy blant? Beth am droi i Effesiaid 6. Wyt ti'n cael anhawster sefydlu perthynas â rhywun sydd mewn awdurdod drosot? Edrych ar gyfarwyddiadau Paul yn Rhufeiniaid 13.

Mae'r rhai sydd yn meddwl am y Beibl ddim ond fel llyfr diwinyddol sydd wedi ei ysgrifennu i ddysgu am natur Duw yn methu. Peidiwch â'm camddeall. Mae e'n llyfr diwinyddol, ond mae'r Beibl hefyd yn gyfarwyddiadur er mwyn ein cynorthwyo i ddarganfod yr atebion i'r problemau hynny sydd yn deillio o fyw bywyd o ddydd i ddydd. Atebion fydd yn dangos ffordd newydd o fyw i'r byd o'n hamgylch.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 119:1–24; Eiseia 55:8–9

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae osgoi pechod?
2. Pam fod Gair Duw yn hanfodol i fywyd bob dydd?

Gweddi

O Dduw fy Nhad, sut fedraf ddiolch digon i ti am roi y Beibl yn gyfarwyddiadur i mi. Rwyf angen byw yn effeithiol drosot yn fy mywyd. Cynorthwya fi i bori yn helaeth yn yr Ysgrythyrau. Yn enw Iesu. Amen.